

BULKELEY, WILLIAM (1691 - 1760), sgwier a dyddiadurwr

Enw: William Bulkeley
Dyddiad geni: 1691
Dyddiad marw: 1760
Plentyn: Mary Wright (née Bulkeley)
Rhyw: Gwryw
Gawedigaeth: sgwier a dyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Richards

O Frynddu, Môn. Ganwyd 4 Tachwedd 1691. Dau ddyddiadur sydd ar gael, un yn ymestyn o 30 Mawrth 1734 i 8 Mehefin 1743; y llall o 1 Awst 1747 i 28 Medi 1760. Y maent yn fwnglawdd o wybodaeth am Fôn, yn enwedig cwmwd Talybion : materion teuluel, arferion cymdeithasol, trefniadau eglwysig. Llawn o ragfarnau rhfydd hefyd; beirniadaeth lem ar bregethu rheithor Llanfechell er bod hwnnw'n dipyn o lenor, yn perthyn yn weddol agos i Bulkeley, ac yn sgweier yn ei hawl ei hun; geiriau gogan am Walpole a'r Whigiaid, a geiriau lawn cyn gased am yr Ymhonnwyr lagoaidd.

Dyn piwus, direidus, llawn prifoc oedd Bulkeley : annhebyg fod iddo ddim cydymdeimlad a'r Methodistiaid, a mwy annhebyg iddo ysgrifennu pamffled i amddiffyn eu golygiadau; ond gellir meddwl amdanio yn cael llawer o hwyl am ben ysweiniaid a chlerigwyr drwy gogio bod yn Fethodus. Rhoddodd loches i **William Prichard** yr Annibynnwr ar ran o'i ystad, nid am ei fod yn credu yn yr ewyddorion y safai **Prichard** drostynt, ond fel moddion prifoc yn erbyn y **Viscount** o Baron Hill a Troughton o Fodlew a oedd wedi troi **Prichard** allan o'u ffermydd hwy.

Nid oedd sgweier ym Môn yn fwy Cymro nag ef; profedigaeth fawr ei fywyd oedd gweled ei ferch Mary yn priodi Philistiaid o Sais o'r enw Fortunatus Wright, bragwr o Lerpwl, a morhlwr rhamantus; llawn yw'r dyddiaduron o'r helbulon yr aeth iddynt, a'r pryder dwys a achosodd. Cangen Brynddu oedd y fwyaf annibynnol ei hysbryd a gododd o foncyff Baron Hill. Bwcle oedd William Bulkeley, serch hynny; pan ddaeth angladd y **Sed Viscount** ym Mawrth 1739, ef oedd gyda'r cyntaf i gael ei wahodd yno, a cherddai yn bur agos i'r elor; nid mor agos nad oedd ganddo amryw o eiriau dychan am y gweithrediadau. Claddwyd 28 Hydref 1760.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Llawysgrifau Henblas yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 18, 19

Llawysgrif Plas Coch yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 635

B. Dew Roberts, *Mr. Bulkeley and the Pirate. A Welsh diarist of the eighteenth century* (Llundain 1936)

G. Nesta Evans, *Social Life in Mid-Eighteenth Century Anglesey* (Caerdydd 1936)

Y Dysgedydd, 1944, 128-9, 147

J. H. Davies (gol.) *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mâ'n) 1728-1765* (1907â€“9), **cyf. I**, **cyf. II** (mynegai)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Bulkeley](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [290968903](#)

Wikidata: [Q8006111](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddi gan
Llywodraeth Cymru
Composed by
Welsh Government